

PRIS TLODI DISGYBLION

Beth mae hyn yn ei olygu a beth gall ysgolion ei wneud?

Effaith ar y dysgwyr

Mae bod yn llwglyd yn effeithio ar addysg ac ymddygiad plant a phobl ifanc

Mae dysgwyr llwglyd yn methu canolbwyntio ac mae hynny'n effeithio ar y dysgu.

Byddan nhw'n teimlo'n fwy anniddig ac o dan straen.

Meysydd allweddol i'w hystyried

Hyrwyddo Prydau Ysgol am Ddim:

Bod yn Llwglyd yn ystod y Gwyliau:

Brecwast Ysgol:

Achos Pryder:

Beth mae'r ysgol yn ei wneud i hyrwyddo hyn?

Beth sydd ar gael i ddysgwyr yn eich ardal?

Ydy'r cynllun yn gweithredu er budd y rhai sydd mewn angen?

Allwch chi adnabod yr arwyddion? Oes prosesau ar waith i ddelio â hyn mewn ffordd dda a sensitif?



Rhai atebion cyflym

Sicrhau bod pob rhiant/gofalwr yn ymwybodol o'r rhaglen prydau ysgol am ddim ac, yn achos ysgolion cynradd, y cynllun [Prydau Ysgol am Ddim i holl Blant Ysgolion Cynradd \(UPFSM\)](#)

Monitro a thracio'r niferoedd sy'n cael prydau ysgol am ddim

Sicrhau bod digon o leoedd ar gael mewn clybiau brecwast am ddim

Adnabod/nodi a chefnogi dysgwyr o deuluoedd incwm is mewn modd sensitif a chadarnhaol

Dechrau sgysiau am ansicrwydd bwyd fel rhan o'r cwricwlwm

Darparu hyfforddiant i'r staff er mwyn adnabod arwyddion tloedi a bod yn llwglyd

Cefnogi rhieni/gofalwyr i wneud cais am brydau ysgol am ddim a budd-daliadau eraill megis y cynllun Cychwyn Iach:

[Trefnu cymorth er mwyn prynu bwyd a llaeth](#)



Mae'r canllawiau i'w gweld ar wefan Addysg Llywodraeth Cymru: [HWB](#)

Am fwy o wybodaeth cysylltwch a: pupilpoverty@childreninwales.org.uk

029 2034 2434 | www.childreninwales.org.uk

Mynd i'r Afael ag Effaith Tloedi ar Raglen Addysg